**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 11 TACHWEDD 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, S.Brennan, H.Jones, Davies, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI’R TRYSORLYS 2020-21**

**Penderfyniad:**

Bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon, a sut maent yn berthnasol i'r gweithgareddau arfaethedig o fewn Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2020/21 a Datganiadau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol gwreiddiol, yn cael eu nodi.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cydymffurfio â gofynion y Côd Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

3. **ADRODDIAD DIWEDDARU A MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2, 2020-21**

Esboniodd swyddogion y byddai'r gorwariant o £6.5 miliwn yn cael ei fonitro'n barhaus drwy gydol y flwyddyn, a'u bod yn obeithiol y byddai'r cyngor yn cael ad-daliad pellach yn dilyn cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru.

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a'r symudiadau o ran arian wrth gefn a gynigir, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bod y materion gweithredol ac ariannol a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu nodi.

3. Bod y cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chyfarwyddiadau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

4. Bod y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu nodi.

5. Bod y cyngor yn parhau i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ganlyniadau COVID-19 sef gwariant cynyddol, colli incwm, cost uwch Cymorth Treth y Cyngor a diffygion casglu treth y cyngor sy'n cael effaith andwyol ar gyllid a gweithgarwch y cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Monitro a diweddaru amcanestyniadau Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 a rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau ariannol sy'n deillio o COVID-19.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **ADRODDIAD MONITRO RHAGLEN GYFALAF CHWARTER 2 – 2020 /21**

Nododd yr Aelodau y bu cynnydd da gyda buddsoddiadau cyfalaf mawr yn y Fwrdeistref Sirol dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Penderfyniadau:**

1. Bod cyllideb arfaethedig 2020/21, sef cyfanswm o £77.684m, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei argymell i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2. Bod y sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Medi 2020 yn cael ei nodi.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Diweddaru Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

6. **CANOLFAN YMWELWYR PARC COEDWIG AFAN – PROSIECT PORTH PARC ADFYWIO'R CYMOEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Bod diben y prosiect yn cael ei nodi a bod yr holl elfennau ar gyfer cyflawni, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu cymeradwyo.

2. Caiff awdurdod ei ddirprwyo i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i lofnodi cynnig grant Llywodraeth Cymru ar ôl ei dderbyn (yn amodol ar ei delerau).

3. Bod y dulliau caffael i gyflawni'r cynllun yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn enwedig mewn perthynas â'r fethodoleg arfaethedig i benodi gwneuthurwr ardal chwarae addas, yn cael eu cymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu gwella'r cyfleusterau yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan i ddenu amrywiaeth ehangach o ymwelwyr. Bydd y fethodoleg gaffael a gynigir yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r prosiect yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. EITEMAU BRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 9 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

## 8. CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2021-22

**Penderfyniadau:**

Bod Sylfaen Treth y Cyngor 2021/22 yn cael ei chymeradwyo fel a ganlyn:

- o 49,653.05 eiddo Band D (gros y gyfradd gasglu)
- o 48,163.46 eiddo Band D (net ar gyfradd gasglu o 97%) ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan; ac
- ar gyfer pob ardal Cyngor Tref a Chymuned, y swm a ddangosir ym mharagraff 6 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Pennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith. Cytunodd Cadeirydd y pwyllgor craffu i'r camau gweithredu hyn. Ni fyddai unrhyw gyfle i gwestiynu'r penderfyniad hwn.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 10. DYMCHWEL ADEILADAU (WEDI'I EITHRIO O DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniadau:**

1. Bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â phroses dymchwel yr adeiladau fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth i ymrwymo i gontract ar gyfer dymchwel yr adeiladau a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw parhaus yn ôl yr angen.

3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i ymrwymo i hawddfraint am byth gyda pherchnogion yr eiddo fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, fel a bennir gan y Pennaeth Eiddo ac Adfywio, i hwyluso mynediad i ymgymryd â gwaith dymchwel ac i ganiatáu mynediad ar gyfer cynnal a chadw adeiladwaith wal gynnal y briffordd yn barhaus, ar delerau ac amodau sydd i'w cytuno gan y Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

4. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i drafod ac ymrwymo i gytundeb, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, gyda thirfeddianwyr ac yswirwyr mewn perthynas â'r cyngor yn

ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen i gydymffurfio â'r Hysbysiadau Dymchwel ac adennill ei gostau o'r cwmni yswiriant.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bwrw ymlaen â'r gwaith i ddymchwel yr eiddo a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ac awdurdodi llofnodi dogfennau i hwyluso mynediad ar gyfer ymgymryd â
gwaith o'r fath ac adennill y costau ariannol cysylltiedig, ac er mwyn cynnal a chadw adeiladwaith wal gynnal y briffordd yn barhaus.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r Aelod Ward Lleol yn cefnogi'r cynigion.

**CADEIRYDD**